# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 01- 06(p.9)

### Dyddiad: 3 Mai 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Ystadegau Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a Grant Buddsoddi'r Cynulliad (AIG) ar Gyfer 2005-06

#### 1. Diben

Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch nifer y cynigion Cymorth Rhanbarthol Dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad a wnaed rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006 a'u dosbarthiad.

#### 2. Cyflwyniad

Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) yn helpu i gefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n creu swyddi newydd ac/neu sy'n diogelu rhai sy'n bodoli eisoes.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2006, gwnaed 116 o gynigion RSA i gwmnïau gyda chyfanswm gwerth o £59 miliwn. £285 miliwn yw'r buddsoddiad mewn prosiectau cysylltiedig a rhagwelir y bydd y prosiectau yn creu 4,818 o swyddi newydd ac yn diogelu 2,506 o swyddi sy'n bodoli eisoes. Yn yr un cyfnod yn ystod 2004-05, gwnaed 143 o gynigion RSA gyda chyfanswm gwerth o ryw £69.8 miliwn gyda chostau prosiectau cysylltiedig o £340 miliwn; rhagwelwyd y byddai'r prosiectau hyn yn creu 5,699 o swyddi newydd ac yn diogelu 2,946 o swyddi sy'n bodoli eisoes. Mae'r gostyngiad yn nifer y cynigion yn dystiolaeth barhaus fod ymgeiswyr ar lefelau grant is wedi gwneud cais am AIG yn hytrach na RSA.

Cyflwynwyd cynllun Grant Buddsoddi’r Cynulliad (AIG) ar 1 Ebrill 2002. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig ledled Cymru - sef y busnesau hynny â llai na 250 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn, yn gyffredinol. Mae'n darparu grantiau o rhwng £5,001 a £50,000 gyda chyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth. Nid yw creu na diogelu swyddi yn hanfodol (ac eithrio 'cymorth i greu swyddi' - gweler isod), ond mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau na fydd colled gyffredinol o ran swyddi o ganlyniad i'r prosiect.

Os yw cynnig yr ymgeiswyr yn golygu lefel gymharol isel o wariant cyfalaf ond bydd yn creu swyddi newydd, gellir cynnig cymorth ar ffurf "Cymorth i greu swyddi" ac fe'i cyfrifir fel cyfran o'r costau cyflogau sy'n gysylltiedig â'r swyddi newydd.

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2006, gwnaed 238 o gynigion am AIG i gwmnïau gyda chyfanswm gwerth o £7m i helpu i gefnogi buddsoddiad o ryw £29.7 miliwn (o gymharu â 357 o gynigion gwerth £10.4m gyda buddsoddiad o £34.4 miliwn yn 2004-05).

## 3. Manylion cynigion RSA a wnaed yn 2005-06

Mae RSA yn parhau i roi cymorth effeithiol i gwmnïau newydd a chwmnïau cymharol newydd: gwnaed dros hanner y cynigion i gwmnïau newydd neu gwmnïau a oedd yn llai na 10 mlwydd oed.

Mae 79 o gynigion (grant o £42.8m a 4,988 o swyddi) yn ymwneud â'r sector gweithgynhyrchu.

Gwnaed 37 o gynigion (grant o £16.1m a 2,336 o swyddi) i'r sector gwasanaethau.

Mae lefelau cyflog fesul prosiect yn amrywio o £9,000 i £48,000 ar gyfartaledd, gyda chyfartaledd cyffredinol ar gyfer pob prosiect o tua £20,800.

Roedd 59% o'r cynigion tuag at brosiectau gan gwmnïau yng Nghymru. Mae'r rhain yn 39.5% o gyfanswm gwerth y grant a gynigiwyd a 39.9% o gyfanswm nifer y swyddi y rhagwelwyd y caent eu creu a'u diogelu.

Mae RSA yn parhau i fod yn effeithiol wrth gefnogi mewnfuddsoddiad - roedd 18.1% o'r cynigion tuag at brosiectau gan gwmnïau sy'n eiddo i berchnogion tramor. Mae'r rhain yn 46% o gyfanswm gwerth y grant a gynigiwyd a 44.7% o gyfanswm nifer y swyddi y rhagwelwyd y caent eu creu a'u diogelu. Noda hyn faint buddsoddi cymharol fwy prosiectau gan gwmnïau nad ydynt yn eiddo i berchnogion yn y DU. £8,413 yw'r grant cyfartalog fesul swydd ar gyfer cwmnïau yng Nghymru o gymharu ag £8,772 ar gyfer cwmnïau sy'n eiddo i berchnogion tramor a £7,964 ar gyfer cwmnïau eraill yn y DU.

### 3.1. Mathau o brosiectau:

| Math o Brosiect | Nifer | Swm a gynigiwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd newydd** | 38 | 17.1 | 73.4 | 1,926 | 126 |
| **Gweithgarwch newydd yn y safle presennol** | 11 | 5.5 | 18.1 | 281 | 668 |
| **Trosglwyddo i safle newydd** | 16 | 9.9 | 24.8 | 812 | 423 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Moderneiddio/ ehangu yn y safle presennol** | 48 | 25.7 | 164.2 | 1,780 | 1,094 |
| **Prynu cyfran y rheolwyr** | 3 | 0.7 | 4,1 | 20 | 195 |

### 3.2 Busnesau bach a chanolig a chwmnïau mawr:

| | **Nifer** | **Swm a gynigiwyd £m** | **Cost y Prosiect £m** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a Ddiogelwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mawr** | 26 | 32.4 | 179.8 | 2,525 | 1,444 |
| **Busnesau Bach a Chanolig** | 90 | 26.6 | 104.7 | 2,295 | 1,062 |

### 3.3 Cwmnïau o Gymru, o Fannau Eraill yn y DU a Chwmnïau â Pherchnogion Tramor:

| | **Nifer** | **Swm a gynigiwyd £m** | **Cost y Prosiect £m** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a Ddiogelwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 69 | 23.3 | 93.2 | 1,805 | 1,353 |
| **Mannau Eraill yn y DU** | 26 | 8.5 | 23.3 | 889 | 174 |
| **Perchnogion tramor** | 21 | 27.2 | 168.0 | 2,124 | 979 |

### 3.4 Swyddi newydd a swyddi a ddiogelwyd

| Swyddi | Nifer | Swm a gynigiwyd £m | Cost y<br><br>Prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a<br><br>Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newydd newydd yn unig** | 68 | 36.8 | 190.8 | 3,739 | 0 |
| **Swyddi a ddiogelwyd yn unig** | 10 | 2.4 | 20.0 | 0 | 374 |
| **Swyddi newydd yn bennaf** | 15 | 5.2 | 19.6 | 634 | 180 |
| **Swyddi a ddiogelwyd yn Bennaf** | 23 | 14.6 | 54.1 | 445 | 1,952 |

**3.5 Ardal Awdurdod Unedol:**

Mae'r cynllun RSA yn gweithredu yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir yng Nghymru ac mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad daearyddol cynigion

| Ardaloedd Awdurdodau Unedol: | Nifer | Swm a gynigiwyd £ | Cost y<br><br>Prosiect £ | Swyddi<br><br>Newydd | Swyddi a<br><br>Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 6 | 2,515,000 | 10,925,000 | 275 | 10 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 14 | 7,500,000 | 18,374,100 | 516 | 396 |
| **Caerffili** | 13 | 2,674,000 | 11,397,921 | 201 | 160 |
| **Caerdydd** | 5 | 1,015,000 | 3,442,000 | 82 | 20 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin** | 3 | 381,763 | 2,288,500 | 44 | 19 |
| **Ceredigion** | 1 | 1,000,000 | 5,005,000 | 12 | 83 |
| **Conwy** | 2 | 328,000 | 1,031,000 | 34 | 246 |
| **Sir Ddinbych** | 5 | 825,000 | 1,764,900 | 81 | 0 |
| **Sir y Fflint** | 5 | 7,580,000 | 23,786,344 | 757 | 105 |
| **Gwynedd** | 6 | 1,290,000 | 5,158,145 | 109 | 169 |
| **Ynys Môn** | 3 | 725,000 | 3,509,000 | 33 | 144 |
| **Merthyr Tudful** | 1 | 200,000 | 1,225,000 | 0 | 60 |
| **Sir Fynwy** | - | - | - | - | - |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 11 | 3,180,000 | 12,406,225 | 152 | 313 |
| **Casnewydd** | 4 | 10,600,000 | 132,916,000 | 624 | 0 |
| **Sir Benfro** | 2 | 190,000 | 979,400 | 18 | 0 |
| **Powys** | 1 | 100,000 | 252,100 | 15 | 0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 14 | 6,685,000 | 18,548,956 | 398 | 610 |
| **Abertawe** | 9 | 4,977,000 | 6,067,559 | 604 | 101 |
| **Bro Morgannwg** | 1 | 120,000 | 502,000 | 25 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tor-faen** | 6 | 5,950,000 | 19,391,000 | 689 | 50 |
| **Cyfanswm** | | | | | |

Yn ogystal, ni chadarnhawyd lleoliad y prosiectau canlynol gan yr ymgeiswyr (ni thelir unrhyw grant hyd nes cadarnheir y lleoliad);

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Haen 1** | 4 | 1,130,000 | 5,554,648 | 149 | 20 |

Nodiadau:

(i) Nid yw Wrecsam wedi'i chynnwys yn y tabl hwn am nad yw'n ardal gymwys at ddibenion RSA.

(ii) Mae Sir Fynwy yn ardal nas cynorthwyir yn bennaf; nid oedd unrhyw gynigion RSA yn y rhan honno sydd yn yr Ardal a Gynorthwyir.

### 4. Manylion cynigion AIG a wnaed yn 2005-06

Mae'r cynllun yn gweithredu ar draws Cymru gyfan ac mae’r tabl isod yn dangos dosbarthiad daearyddol cynigion.

| Ardaloedd Awdurdodau Unedol: | Nifer | Gwerth y Cynnig £ | Cost y Prosiect £ | Swyddi Newydd | Swyddi a Gadwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 4 | 116,500 | 488,500 | 20 | 23 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 15 | 458,000 | 1,225,186 | 77 | 97 |
| **Caerffili** | 31 | 919,925 | 2,916,663 | 108 | 171 |
| **Caerdydd** | 8 | 188,500 | 1,159,511 | 41 | 51 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 22 | 589,000 | 1,922,293 | 79 | 233 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ceredigion** | 4 | 80,001 | 243,703 | 25 | 16 |
| **Conwy** | 14 | 522,000 | 2,138,264 | 60 | 174 |
| **Sir Ddinbych** | 12 | 496,000 | 2,001,779 | 64 | 121 |
| **Sir y Fflint** | 9 | 289,680 | 2,021,390 | 20 | 158 |
| **Gwynedd** | 10 | 293,725 | 861,747 | 25 | 57 |
| **Ynys Môn** | 4 | 132,000 | 444,084 | 22 | 167 |
| **Merthyr Tudful** | 5 | 130,500 | 392,007 | 23 | 2 |
| **Sir Fynwy** | 1 | 50,000 | 338,520 | 6 | 0 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 21 | 546,000 | 1,870,640 | 87 | 261 |
| **Casnewydd** | 3 | 105,000 | 490,742 | 16 | 121 |
| **Sir Benfro** | 8 | 126,000 | 526,409 | 19 | 51 |
| **Powys** | 1 | 50,000 | 745,331 | 18 | 0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 24 | 634,001 | 3,052,037 | 108 | 140 |
| **Abertawe** | 20 | 598,000 | 3,136,519 | 87 | 114 |
| **Bro Morgannwg** | 2 | 31,000 | 122,228 | 3 | 40 |
| **Tor-faen** | 7 | 187,801 | 356,363 | 13 | 187 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wrecsam** | 6 | 220,000 | 2,451,083 | 39 | 51 |
| **Cyfanswm** | | | | | |

Yn ogystal, ni chadarnhawyd lleoliad y prosiectau canlynol gan yr ymgeiswyr;

(ni thelir unrhyw grant hyd nes cadarnheir y lleoliad);

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Haen 1** | 7 | 255,001 | 817,215 | 40 | 37 |

**Camau gweithredu y mae'n ofynnol i'r Pwyllgor eu cymryd**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynigion diweddaraf hyn ar gyfer RSA ac AIG yng Nghymru.

**Buddsoddi Cymru**